

Deddf lawndal 1996: Cyfradd y Disgownt

Sut ddylid ei phennu?

**Ymgynghoriad ar y cyd a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder,
Llywodraeth yr Alban a'r Adran Cyfiawnder, Gogledd Iwerddon. Mae ar gael
ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk**

Crynodeb gweithredol

Bwriedir i iawndal a ddyfernir gan lysoedd mewn achosion o anafiadau personol wneud iawn i'r hawlydd¹ am y golled a achoswyd ar gam iddo gan ei anaf.

Mewn egwyddor, bwriad yr iawndal yw rhoi'r hawlydd yn ôl yn yr un sefyllfa y byddai ef neu hi wedi bod ynddi oni bai am yr anaf a achoswyd ar gam. Dylai'r iawndal, felly, fod mor gyflawn â phosibl, ond ni ddylai roi rhy ychydig na gormod o iawndal i'r hawlydd.

Er bod modd defnyddio taliadau cyfnodol fel ffordd o dalu iawndal i'r hawlydd, mae'r rhan fwyaf o'r iawndal a ddyfernir am anafiadau personol yn cael eu talu fel setliad unwaith ac am byth. Mae'r hawlydd felly'n cael yr holl iawndal ar gyfer y gofal y bydd ei angen arno yn y dyfodol a'r enillion y gallai fod wedi'u hennill yn y dyfodol oni bai am yr anaf, a hynny efallai am lawer o flynyddoedd i ddod, ar adeg talu'r iawndal. Gan fod modd i'r hawlydd fuddsoddi'r swm hwn, rhaid caniatáu ar gyfer derbyniad cyflym neu fel arall mae'n debyg y byddai'r hawlydd yn cael gormod o iawndal. Mae'r cyfandaliad felly'n cael ei leihau drwy gyfrwng cyfradd y disgownt. Yn ymarferol, nid oes angen cyfrifiad ar wahân gan fod y tablau actiwari a ddefnyddir yn ystyried effaith amrywiaeth o gyfraddau disgownt. Yr unig beth y mae angen i'r partion cyfreithia ei wneud yw defnyddio'r un perthnasol.

Yng Nghymru a Lloegr, pennir cyfradd gyffredinol gan yr Arglwydd Ganghellor o dan Adran 1 Deddf Iawndal 1996, er bod modd i'r llys benderfynu bod cyfradd arall yn briodol mewn achos unigol. Yn eu hawdurdodaethau hwy, rhoddir rôl i Weinidogion yr Alban a'r Adran Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon yn y drefn honno, o dan adran 1, fel y'i diwygiwyd, sy'n debyg i rôl yr Arglwydd Ganghellor. Mae defnyddio'r gyfradd gyffredinol yn golygu nad oes angen i hawlwr a diffynyddion² ddadlau pa gyfradd disgownt fyddai'n briodol yn eu hachos penodol hwy, gan arbed cryn amser a chostau.

Wrth benderfynu ar gyfradd y disgownt mae'r Arglwydd Ganghellor yn cael ei arwain gan y canllawiau a osodwyd gan Dŷ'r Arglwyddi yn achos *Wells v Wells*³ ym 1998. Tybir fod hawlwr felly mewn categori arbennig o fuddsoddwyr y mae angen iddynt fod yn siŵr y bydd arian ar gael i dalu eu costau wrth iddynt godi yn y dyfodol. Tybir y byddant yn fodlon derbyn lefel isel o risg a thybir yn yr un modd mai llog isel a delir ar eu buddsoddiadau oherwydd hynny. Bwriedir i'r gyfradd y disgownt adlewyrchu'r gyfradd llog wirioneddol ar y buddsoddiadau hyn. Mae gan yr hawlydd, fodd bynnag, bob hawl i fuddsoddi'r arian ym mha bynnag ffordd mae'n ei ddewis.

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, pennwyd cyfradd bresennol y disgownt o 2.5% yn 2001⁴ yn bennaf drwy gyfeirio at gyfraddau arenill atbryniad crynswth tair blynedd cyfartalog syml Mynegrif Gysylltiol Gwarantau'r (ILGS) yn amodol ar gymhwyso ar gyfer arenillion stociau bron â therfynu.

¹ Yn yr Alban, adwaenir hawlydd fel pursuer ac fel plaintiff yng Ngogledd Iwerddon.

² Yn yr Alban, adwaenir diffynnydd fel defender.

³ Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon, er mai achos Saesneg oedd *Wells v Wells*.

⁴ Yn yr Alban, pennwyd y gyfradd ddisgownt bresennol o 2.5% yn 2002.

Mae arenillion ar ILGS wedi bod yn gostwng ers peth amser ac mae perygl bod y gyfradd bresennol yn rhy uchel erbyn hyn. Oherwydd hyn, mae'r Arglwydd Ganghellor, Gweinidogion yr Alban a'r Adran Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon i gyd wedi penderfynu y dylid adolygu cyfradd y disgownt er mwyn sicrhau ei bod wedi'i phennu ar gyfradd briodol. Fel rhan o'r ymarferion hyn, yn dilyn cyngor gan yr ymgynghoreion statudol perthnasol,⁵ maent wedi penderfynu ymgynghori ar sut y dylid pennu'r gyfradd. Diben y papur ymgynghori hwn yw canfod barn ar y fethodoleg y dylid ei defnyddio i bennu'r gyfradd.

Cyfradd y disgownt i bob pwrpas yw cyfradd yr adenillion y gellid ei disgwyl drwy fuddsoddi cyfandaliad a delid fel iawndal am golledion yn y dyfodol. Bydd y fethodoleg a ddefnyddir i bennu'r gyfradd yn diffinio'r mathau o fuddsoddiadau drwy gyfeirio at yr arenillion, yn amodol ar gymwysiadau priodol, y bydd cyfradd y disgownt yn seiliedig arnynt. Mae'n bosibl na fydd un gyfradd 'gywir' ond y brif nod yw pennu'r gyfradd mor gywir â phosibl fel y gellir osgoi iawndal rhy uchel neu isel yn y dyfodol o ganlyniad i daliadau cynnar.

Mae dau ddewis cyffredinol yn cael eu hystyried: (a) defnyddio methodoleg yn seiliedig ar ILGS wedi'i gymhwyso i ddata cyffredol; a (b) cefnu ar gyfrifiad yn seiliedig ar ILGS a defnyddio un sy'n seiliedig ar bortffolio cymysg o fuddsoddiadau priodol wedi'i gymhwyso i ddata cyffredol.

Rydym yn gwahodd sylwadau ar y ddau ddewis yn ogystal ag unrhyw faterion eraill yr hoffai ymgynghoreion dynnu ein sylw atynt, sy'n cyfeirio'n gyffredinol neu'n benodol at un neu ragor o'r awdurdodaethau yn y Deyrnas Unedig.

Ni fydd dewis y fethodoleg briodol ynndo'i hun yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar ddyfarnu iawndal, ond, yn ddibynnol ar ei faint, gall newid yng nghyfradd y disgownt gynyddu neu leihau'n sylweddol y symiau sy'n daladwy fel iawndal am anafiadau personol. Mae hyn yn ganlyniad anochel defnyddio'r egwyddor o iawndal llawn. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau i ddiffynyddion sy'n deillio o dalu iawndal yn fater i'w ystyried wrth bennu cyfradd y disgownt.

⁵ Actiwari'r Llywodraeth ar gyfer y dair awdurdodaeth, Trysorlys EM, Adran Gyllid a Phersonél ar gyfer Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y daflen honno.